Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Ms Allison Williams
Bwrdd Iechyd Cwm Taf
Ynysmeurig House
Navigation Park
Abercynon

17 Ebrill 2015

Annwyl Ms Williams

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar y cyfan, rwy'n siomedig ar eich ymateb gan ei fod yn awgrymu diffyg ffocws ar y canlyniadau yr wyf yn ceisio'u sicrhau ar ran pobl hŷn a'i fod mewn llawer o achosion yn cynnig ychydig yn unig o wybodaeth imi mewn perthynas â chamau pendant sydd gennych ar eu hanner neu yr ydych yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Dydy'r ymateb a gyflwynwyd gan Economi Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cwm Taf ddim yn ymateb yn uniongyrchol i'r Anghenion Gweithredu sydd wedi'u rhifo ac a nodir yn yr adroddiad ar yr Adolygiad. Yn hytrach, mae camau a materion wedi'u nodi yn erbyn y Deilliannau i bobl hŷn y mae angen eu cyflawni. Felly, mae'r casgliadau cychwynnol yn erbyn yr Anghenion Gweithredu wedi'u datblygu trwy ddarllen ar draws o'r deilliannau i'r Anghenion perthnasol.

Angen Gweithredu 1.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.3 Dylai cefnogaeth ymataliaeth arbenigol fod ar gael i bob cartref gofal er mwyn cefnogi arferion gorau o ran gofal ymataliaeth, a hynny'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol eglur o ran defnyddio cymhorthion ymataliaeth ac urddas.

Mae'n ymddangos bod yr ymateb i'r Angen hwn yn dangos cydnabyddiaeth bod angen cefnogi darpariaeth gofal ymataliaeth, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth i staff cartrefi gofal ar y ddarpariaeth gyfredol a dulliau i gael mynediad i gefnogaeth arbenigol. Ond, does dim gwybodaeth bellach ar ble a sut y bydd y sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth hyn yn digwydd.

Mae yna gydnabyddiaeth hefyd fod adnoddau'n gyfyngedig er bod gofal ymataliaeth arbenigol yn cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd. Ond, does dim gwybodaeth bellach ar effaith yr adnoddau cyfyngedig hyn ar fynediad pobl hŷn sy'n byw mewn lleoliadau preswyl i ofal ymataliaeth arbenigol a'u profiadau. Does dim ymrwymiad ychwaith i gymryd camau i liniaru unrhyw effaith sy'n cael ei chreu am fod yr adnoddau'n gyfyngedig.

Mae'r ymateb yn cydnabod bod rhai darparwyr yn anfodlon defnyddio cynhyrchion priodol. Ond, mae'n fater o bryder nad oes unrhyw

ymhelaethu ar hyn. Dydy hi ddim yn amlwg o'r ymateb pam mae hyn yn digwydd, a beth mae'r cyrff statudol yn mynd i'w wneud i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i gynhyrchion priodol ac yn bwysicaf oll, beth ydy effaith hyn ar unigolion.

Nodir y bydd archwiliad sylfaenol yn cael ei gynnal yn erbyn yr Anghenion yn ystod Ebrill 2015 i lywio gwaith yn y dyfodol. Ond dydy hi ddim yn gwbl glir sut mae hyn yn cyd-fynd â'r camau a'r materion sydd eisoes wedi'u nodi yn yr ymateb.

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae'n ymddangos bod yr ymateb i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r angen am ddarpariaeth eiriolaeth annibynnol; ond, er bod yr ymateb yn cyfeirio at feysydd a nodir yn Anghenion Gweithredu'r Comisiynydd, fe fyddai'r ymateb yn elwa o gae cyfeiriad penodol at elfennau craidd y camau angenrheidiol ac o gynnwys cynllun gweithredu clir yn yr ymateb gyda llinellau amser a swyddog arweiniol dynodedig. Mae yna gyfeiriad byr at ddefnyddio IMCAs o dan drefniadau diogelu, ond does dim cyfeiriad at bwyntiau allweddol fel yr

angen am eiriolaeth annibynnol wrth symud person hŷn o'r ysbyty i gartref gofal.

Does dim arfarniad ynghylch ansawdd y ddarpariaeth gyfredol a gallu pobl hŷn i gael mynediad a defnyddio'r gwasanaethau hyn mewn gwirionedd.

Mae yna gyfeiriad at rai camau arfaethedig ac mae'r Awdurdod Lleol yn nodi y bydd yn adolygu trefniadau eiriolaeth a'r lle ar gyfer comisiynu ar y cyd. Ond does dim gwybodaeth bellach ar yr amserlen ar gyfer hyn na chynllun i weithredu unrhyw ganfyddiadau. Nodir y bydd archwiliad sylfaenol yn cael ei gynnal yn erbyn yr Anghenion yn ystod Ebrill 2015 i lywio gwaith yn y dyfodol.

Mae'r ymateb hefyd yn datgan y bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu rôl y grŵp Cefnogi Gweithrediadau Cartrefi fel rhan o'r weithdrefn pryderon cynyddol i gryfhau rôl eiriolaeth; ond mae ar y Comisiynydd eisiau sicrwydd y bydd y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd mewn gwirionedd. Fe fyddai'r ymateb felly yn elwa o gael crynodeb o sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu rhoi ei gynllun gweithredu ar waith.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'n anodd penderfynu ble mae'r ymateb i'r Angen hwn gan nad oes yna gyfeiriad uniongyrchol at 2.2.

Mae'n ymddangos bod yr ymateb i'r angen hwn yn dangos diffyg dealltwriaeth ynghylch amrediad a chwmpas gwasanaethau arbenigol ac nid yw'n darparu ymateb sy'n ateb yr anghenion gweithredu yn llawn. Nid yw'r cynnwys ynghylch cefnogaeth yn sgil cyfnod o salwch yn darparu unrhyw wybodaeth sylweddol ynghylch y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau arbenigol a gofal amlddisgyblaeth i bobl hŷn.

Mae'r ymateb yn datgan y bydd yn codi ymwybyddiaeth staff mewn cartrefi gofal a staff y Bwrdd Iechyd Prifysgol/ALl ynghylch hawliau a threfniadau mynediad sydd eisoes yn bodoli trwy gontractau gofal sylfaenol, Gwasanaethau Ychwanegol Lleol Meddygon Teulu ac o dan y canllawiau i Gartrefi Nyrsio wedi'u Cyllido. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi y bydd yn sicrhau bod digwyddiadau hyfforddi a manylebau contractau yn ystyried yr angen am newid diwylliannol ymysg staff i ganolbwyntio ar ymagwedd/deilliannau yn person-ganolog a phwyslais cryfach ar sgiliau ail-alluogi. Mae yn gam i ystyried gwerthusiad o brosiectau peilot ond nid ymrwymiad i weithredu ar ganfyddiadau'r gwerthusiadau yma. Er hynny, nodir y bydd archwiliad sylfaenol yn cael ei gynnal yn erbyn yr Anghenion yn ystod Ebrill 2015 i lywio gwaith yn y dyfodol.

Serch hynny, does dim cyfeiriad penodol at fynediad cyfredol i wasanaethau amlddisgyblaeth na darparu'r gwasanaethau hynny. Dydy'r ymateb ddim yn nodi diffygion yn y ddarpariaeth nac arwydd clir o gynllun gweithredu i ddelio ag Anghenion Gweithredu'r Comisiynydd. Mae'r dull hwn o weithredu yn annelwig ac mae'n ei gwneud yn anodd asesu realiti'r mynediad i wasanaethau o'r fath, ac ansawdd gwasanaethau o'r fath, ar gyfer pobl hŷn ar draws y rhanbarth.

Byddai'r ymateb yn well pe bai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ynghyd â chrynodeb clir a sicrwydd o sut mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu sicrhau y cydymffurfir yn llawn ag anghenion gweithredu'r Comisiynydd.

Anghenion Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan yn ei ymateb ei fod yn bwriadu hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrediad o hyfforddiant o ansawdd uchel sydd ar gael trwy'r Cyngor a thrwy'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) i staff cartrefi gofal. Bydd y d darpariaeth yn cynnwys lefelau gwahanol, er enghraifft, ymwybyddiaeth sylfaenol, hyfforddiant uwch i oruchwylwyr/rheolwyr, ond dydy'r ymateb ddim yn nodi unrhyw raglenni penodol.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu niferoedd/presenoldeb a chanlyniadau'r hyfforddiant trwy fanylebau gwasanaethau a monitro contractau trwy ddefnyddio ffurflenni i gasglu tystiolaeth yn gyson.

Er bod rhai pethau cadarnhaol yn ymateb yr Awdurdod Lleol, dydy e ddim yn delio'n uniongyrchol â holl elfennau allweddol yr angen gweithredu. Dydy e ddim yn datgan a oes darpariaeth gyfredol ar gyfer hyfforddiant dementia sylfaenol i holl weithwyr y cartrefi gofal, a dydy e ddim chwaith yn cyfeirio at linell amser na swyddog arweiniol mewn perthynas â rhoi amrediad o fathau o hyfforddiant ar waith.

Byddai'r ymateb yn well pe bai yna grynodeb clir o'r ddarpariaeth gyfredol a chynllun gweithredu sy'n cynnwys crynodeb o'r hyfforddiant arfaethedig ynghyd â chyfeiriad clir at oruchwyliaeth ac asesiad perfformiad parhaus er mwyn darparu sicrwydd i'r Comisiynydd y cydymffurfir â'r angen gweithredu.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r angen am fentrau cyfeillio ac yn cyfeirio at drefniadau sydd eisoes yn bodoli gyda'r Groes Goch a Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf. Er hynny, does dim trosolwg cryno o sut mae'r trefniadau hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan ei fod yn bwriadu adeiladu ar y trefniadau hyn ar gyfer gwasanaethau cyfeillio mewn cartrefi a chymryd camau perthnasol o Gyd-ddatganiad Comisiynu Cwm Taf ar gyfer Pobl Hŷn, er enghraifft, gallu Adeiladu Cymuned, Iechyd a Llesiant.

Er bod hyn yn galonogol, ychydig sydd yn yr ymateb sy'n darparu tystiolaeth i ddangos bod yr Awdurdod Lleol yn cymryd camau gweithredol i annog y defnydd o gynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal. Byddai'r ymateb yn well pe bai yna grynodeb o'r mentrau cyfredol a'r mentrau arfaethedig, ond arwydd clir hefyd o sut mae'r rhain yn cefnogi preswylwyr yn uniongyrchol. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r angen gweithredu, gallai'r ymateb hefyd gynnwys sicrwydd y bydd elfennau allweddol eraill, fel sicrhau mynediad parhaus i gymorth wedi''i seilio ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol, yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau darpariaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae angen i'r ymateb gynnwys llinell amser gweithredu clir ac enwau swyddogion arweiniol.

Angen Gweithredu 3.4

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.4 Datblygu cefnogaeth iechyd meddwl a lles arbenigol amlddisgyblaethol, mewngymorth ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi gofal, a sicrhau ei fod ar gael, yn cynnwys:

- Asesu iechyd meddwl a lles pobl hŷn fel rhan o'u gofal cychwynnol ac asesu datblygiad eu cynllun cefnogaeth a chynllunio eu gofal parhaus.
- Cyngor a chefnogaeth i staff gofal ynghylch sut i ofalu'n effeithiol am bobl hŷn ag anghenion lles meddyliol ac iechyd meddyliol, yn cynnwys dementia, a phryd i atgyfeirio.
- Llwybrau atgyfeirio amlwg a meini prawf ar gyfer atgyfeirio.
- Mae'r holl breswylwyr sy'n cymryd cyffuriau gwrthseicotig yn cael eu monitro a'u hasesu ar gyfer y posibilrwydd o ddiddyfnu, ac mae

adolygiadau yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau NICE.

Dydy'r ymateb ddim yn darparu unrhyw sylwebaeth y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r Angen. Ond, ar sâl gwybodaeth sydd wedi'i darparu mewn perthynas â'r deilliannau dydy hi ddim yn glir beth ydy'r ymwybyddiaeth gyfredol o ofal iechyd meddwl arbenigol a gofal llesiant ar gyfer staff a phobl hŷn, a mynediad iddyn nhw. Er enghraifft, mae'r ymateb yn cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael gan arbenigwyr ond dydy e ddim yn rhoi unrhyw arwydd o lefelau mynediad ac ymwybyddiaeth ar hyn o bryd.

Mae'r ymateb yn ymrwymo i drefniadau parhaus gyda fferyllwyr i adolygu meddyginiaethau ond dydy e ddim yn rhoi barn ynghylch ansawdd a realiti mynediad ar gyfer unigolion.

Yn olaf, mae'r ymateb yn datgan y bydd y gwaith monitro contractau a'r cyd-arolygu yn cael eu hadolygu, gan gynnwys ansawdd asesu a chynllunio gofal. Ond, mae'r wybodaeth hon yn annelwig a dydy hi ddim yn rhoi darlun o brofiadau cyfredol pobl hŷn.

Angen Gweithredu 3.5

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

3.5 Mae gwybodaeth yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ynghylch defnyddio cyffuriau gwrthseicotig yn unol â chanllawiau NICE a Thargedau Deallus ar Gyfer Dementia Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymateb i'r Angen hwn yn cwestiynu gwerth yr Angen hwn. Er hynny, does dim gwybodaeth bellach wedi'i darparu i ddweud pam ac a ydy'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa i wneud hynny neu beidio.

Angen Gweithredu 4.2

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

4.2 Mae cytundeb ffurfiol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu rhwng y cartref gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol ac arbenigol yn seiliedig ar y Datganiad o Hawliau. Dylai hyn gynnwys:

- Llwybrau atgyfeirio, yn cynnwys mynediad agored
- Amseroedd aros
- Gwybodaeth am atgyfeirio a rhyddhau
- Cyngor a gwybodaeth i gefnogi gofal parhaus y person hŷn yn y cartref
- Mynediad i wasanaethau arbenigol i bobl hŷn mewn cartrefi nyrsio yn unol â'r Canllawiau Hanfodion Gofal.

Dydy'r ymateb i'r Angen hwn ddim yn darparu ymrwymiad i ddatblygu cytundeb ffurfiol rhwng cartrefi gofal a gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal arbenigol lleol. Mae'r ymateb yn datgan bod hawl o'r fath eisoes yn bodoli trwy'r contractau GMS ac LES ac y gellid cynnwys datganiadau ychwanegol yn y rhain. Ond does dim ymrwymiad i weithio ar hyn.

Mae'r ymateb yn datgan yn gywir na ddylai fod yna wahaniaeth mewn llawer o wasanaethau yn yr hyn sydd ar gael i bobl hŷn mewn cartrefi gofal a lleoliadau eraill. Ond dydy'r datganiad yma ddim yn cydnabod bod tystiolaeth yr Adolygiad wedi datgelu bod yna wahaniaeth eisoes mewn llawer o achosion o ran mynediad i wasanaethau o'r fath ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn lleoliadau preswyl ac mae'r Angen Gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwn.

Mae'r ymateb yn ymrwymo i gynnal archwiliad o wasanaethau arbenigol ac mae'n cwestiynu a ellid gwneud rhywbeth tebyg ar gyfer gofal sylfaenol. Ond does dim gwybodaeth ychwanegol ynghylch pryd y caiff hyn ei gwblhau a dim ymrwymiad i gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i hynny.

Nodir y cynhelir archwiliad sylfaenol yn Ebrill 2015 i lywio gwaith yn y dyfodol. Ond, dydy hi ddim yn gwbl glir sut mae hyn yn cyd-fynd â'r camau a'r materion a nodwyd eisoes yn yr ymateb.

Angen Gweithredu 4.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

4.3 Darperir gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant pan fo'n briodol i staff gofal er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn adnabod anghenion iechyd pobl hŷn yn ogystal â phryd a sut i atgyfeirio.

Mae'r ymateb i'r Angen hwn yn ymrwymo i gynnal digwyddiad codi ymwybyddiaeth i staff. Ond, does dim gwybodaeth ynghylch pa bryd y bydd hyn yn digwydd na'r ystod o staff y maen nhw'n bwriadu darparu digwyddiad o'r fath ar eu cyfer. Yn ogystal ar raddfa eang, does dim gwybodaeth am realiti presennol gwybodaeth a galluoedd staff y cartrefi gofal, sut y caiff bylchau posibl eu nodi a'u trafod.

Mae yna ddatganiad y bydd hyfforddiant un i un yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer anghenion pobl hŷn unigol. Ond does dim gwybodaeth am unrhyw ddull rhagweithiol a systematig o weithredu a fydd efallai yn angenrheidiol yng ngoleuni canfyddiadau'r Adolygiad a'r Angen.

Angen Gweithredu 4.4

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

4.4 Wrth gyrraedd cartref gofal, mae pobl hŷn yn derbyn adolygiadau o feddyginiaethau gan weithiwr proffesiynol clinigol gymwys, ac adolygiadau rheolaidd o feddyginiaethau'n cael eu cynnal yn unol â'r arferion gorau a gyhoeddwyd.

Mae'r ymateb i'r Angen Gweithredu yn datgan y bydd y trefniadau cyfredol lle mae fferyllydd yn gweithio gyda chartrefi gofal i adolygu meddyginiaeth yn parhau. Ond does dim gwybodaeth nac arfarniad pellach ynghylch digonolrwydd nac ansawdd y gwasanaeth cyfredol, a beth ydy profiadau unigolion o hyn.

Mae'r ymateb yn dangos bwriad i wella darpariaeth adolygiadau trwy ddatgan y caiff y gwersi a ddysgwyd o gamgymeriadau meddyginiaeth mewn un cartref eu cymhwyso ar draws y rhanbarth. Ond, does dim

rhagor o fanylion ynghylch beth oedd y problemau hyn, sut y byddan nhw'n cael eu trafod a beth fydd yr effaith ar yr unigolyn.

Mae'r ymateb yn datgan nad ydy adolygiad bob amser yn arbennig o berthnasol os oes adolygiad diweddar wedi'i gynnal mewn ysbyty. Ond does dim gwybodaeth am sut y byddai cartref gofal yn sicrhau bod adolygiad wedi'i gynnal, nad oes unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a fyddai'n golygu bod angen adolygiad, ac y byddai gan yr unigolyn perthnasol mewn cartref gofal fynediad cyflym i'r wybodaeth angenrheidiol yn dilyn adolygiad.

Mae'r ymateb yn gofyn am eglurder mewn perthynas â'r term 'gweithiwr proffesiynol â chymwysterau clinigol'. Yng nghyd-destun yr Adolygiad, fe fyddai hyn yn golygu unigolyn perthnasol sydd wedi'i gymhwyso'n briodol.

Nodir y cynhelir archwiliad sylfaenol yn Ebrill 2015 yn erbyn yr Anghenion i lywio gwaith yn y dyfodol.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Mae'r ymateb i'r Angen hwn yn gofyn am eglurder ar rôl Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol, ac mae'n cydnabod bod hyn i'w arwain gan Lywodraeth Cymru.

Er bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth, gan gynnwys cyfeiriad at gynlluniau i hyrwyddo rôl SCWDP a rhaglen hyfforddi i gynorthwyo cartrefi gofal a rhoi dull newydd i archwilio ansawdd ar waith ym Merthyr Tudful, does dim arwydd uniongyrchol o gydymffurfio â'r Angen Gweithredu.

Mae'r ymateb yn awgrymu defnyddio adolygiad annibynnol ad hoc fel dewis amgen. Ond, mae'n ymddangos mai dull lleol o weithredu yw hwn, na fydd o bosibl yn cyflawni'r nodau a ddymunir ar gyfer Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol. Ond, does dim digon o wybodaeth i allu barnu pa mor ddigonol fyddai dewis amgen o'r fath.

Nodir y cynhelir archwiliad sylfaenol yn Ebrill 2015 yn erbyn yr Anghenion i lywio gwaith yn y dyfodol. Byddai'r ymateb yn well pe bai yna sicrwydd bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu cydymffurfio'n llawn ac y bydd yn cefnogi ac yn ymgysylltu yn natblygiad Gwasanaeth Gwella Cenedlaethol.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'r ymateb i'r Angen hwn yn cynnwys bwriad cadarnhaol i sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei chofnodi mewn ymgynghoriadau a holiaduron blynyddol yn cael ei dadansoddi a bod camau'n cael eu cymryd yn ei chylch i lywio'r gwaith monitro contractau a'r arolygiadau. Mae'r ymateb yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd casglu gwybodaeth a gweithredu ar wybodaeth a gesglir yn uniongyrchol oddi wrth breswylwyr cartrefi gofal, gan ddatgan y bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod yr

wybodaeth sy'n cael ei chofnodi mewn ymgynghoriadau a holiaduron blynyddol yn cael ei dadansoddi a bod camau'n cael eu cymryd yn ei chylch i lywio'r gwiath monitro contractau a'r arolygiadau.

Ond, er bod yr ymateb yn adlewyrchu rhywfaint o gydymffurfio â'r angen gweithredu, dydy'r wybodaeth a ddarparwyd ddim yn gyfystyr â chynllun cadarn ar gyfer gwrando'n wirioneddol ar leisiau pobl hŷn a defnyddio'r rhain i yrru gwelliannau yn ansawdd bywyd. Ymhellach, dydy e ddim yn darparu unrhyw wybodaeth ar lwyddiant cyfredol y rhanbarth i wrando a gweithredu ar leisiau pobl hŷn.

Does dim cyfeiriad at adroddiadau blynyddol ar ddefnyddio adborth pobl hŷn, na chwaith unrhyw gyfeiriad at gydweithio systemataidd ag AGGCC er mwyn deall profiadau pobl hŷn y tu allan i gwynion ffurfiol yn well.

Mae yna ddatganiad i ystyried sut i ddefnyddio'r Fforwm Darparwyr i rannu'r arferion gorau. Ond does dim manylion, a dim cynlluniau cadarn ynghylch unrhyw gamau y gellid eu cymryd o ganlyniad i ystyriaeth o'r fath.

Mae'r cyfeiriad at gyflwyno dull archwilio ansawdd yn rhy annelwig i ddarparu darlun o'r camau arfaethedig a does dim cyfeiriad at ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl hŷn.

Nodir y cynhelir archwiliad sylfaenol yn Ebrill 2015 yn erbyn yr Anghenion i lywio gwaith yn y dyfodol

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau

- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal
- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Nid yw'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r angen hwn a dydy hi ddim yn glir a ydy'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol.

Mae'r ymateb yn nodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu trefniadau monitro contractau a chyd-arolygiadau i adlewyrchu deilliannau'r broses fel y bo'n briodol mewn datganiadau ansawdd/cynlluniau gwella. Bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn ystyried defnyddio ffurflenni ar gyfer cartrefi gofal i gofnodi gwybodaeth a thystiolaeth am berfformiad yn fwy cyson.

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan y bydd hefyd yn ystyried sut mae'r dangosfyrddau perfformiad a ddefnyddir gan ddarparwyr cartrefi gofal mwy yn llywio'r broses a sut y gellir eu haddasu i'w defnyddio mewn cartrefi llai.

Er bod rhai pethau cadarnhaol yn ymateb yr Awdurdod Lleol, dydy e ddim yn cyfeirio'n uniongyrchol at nifer o elfennau allweddol yr anghenion gweithredu. Er enghraifft, does dim sôn am eiriolaeth annibynnol, dim cyfeiriad yn benodol at bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu golled synhwyraidd a dim cyfeiriad at gynnal hawliau dynol pobl hŷn.

Byddai'r ymateb yn well pe bai yna arwydd clir bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu cydymffurfio'n llawn â'r Angen Gweithredu a phe bai'n darparu sicrwydd y bydd yn cynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Fe fyddai'r ymateb yn well hefyd pe bai yna ystyriaeth ac ymateb i'r anghenion penodol fel y'u cyflwynir uchod.

Angen Gweithredu 6.8

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

6.8 Mae Byrddau Iechyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn mewn cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol:

- defnydd amhriodol o gyffuriau gwrthseicotig
- mynediad i gefnogaeth iechyd meddwl a lles
- mynediad i atal cwympiadau
- mynediad i wasanaethau ail-alluogi
- cefnogaeth i gynnal golwg a chlyw

Datblygu meysydd eraill sydd i'w cynnwys fel rhan o ganllawiau DAB a gyhoeddir yn flynyddol.

Does dim ymrwymiad yn yr ymateb i'r Angen hwn i gynnwys yr wybodaeth iechyd a nodwyd am bobl hŷn mewn cartrefi gofal yn Natganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd. Mae'r ymateb yn cynnwys awgrym amgen ynghylch defnyddio adroddiad gan AGGCC yn cynnwys y rhanbarth, a chydadroddiadau gan y comisiynwyr. Ond, mae cynhyrchu adroddiad gan AGGCC yn cyflawni swyddogaeth bendant a gwahanol i'r hyn a ddymunir mewn Datganiad Ansawdd Blynyddol. Ymhellach, mae defnyddio adroddiad gan gomisiynwyr yn creu'r risg o gynnwys gwybodaeth am anghenion iechyd a deilliannau iechyd yn unig ar yr unigolion hynny y mae eu gofal a'u cefnogaeth wedi'u comisiynu naill ai trwy'r Awdurdod Lleol neu drwy'r Bwrdd Iechyd. Gallai hyn hepgor gwybodaeth werthfawr a darlun o brofiadau'r unigolion hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl, neu lle nad ydy eu cartref gofal wedi'i gomisiynu gan gorff statudol. Byddai angen rhagor o wybodaeth am y cynnig amgen hwn er mwyn cael penderfynu a fyddai'n ddigonol yn lle'r Angen Gweithredu.

Nodir y cynhelir archwiliad sylfaenol yn Ebrill 2015 yn erbyn yr Anghenion i lywio gwaith yn y dyfodol

Angen Gweithredu 7.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

7.3 Mae'r GIG yn gweithio â'r sector cartrefi gofal er mwyn ei ddatblygu fel rhan allweddol o'r llwybr gyrfa nyrsio, yn cynnwys darparu cefnogaeth datblygu proffesiynol a chymheiriaid llawn i nyrsys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal.

Dydy'r ymateb i'r Angen hwn ddim yn dangos dealltwriaeth o lefelau cyfredol staff nyrsio mewn cartrefi gofal na chwaith ddealltwriaeth o'r rhesymau dros ddod i'r sector neu'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag dod i'r sector.

Mae yna gam gweithredu cadarnhaol i archwilio'r lleoliadau sydd ar gael i fyfyrwyr nyrsio ond does dim gwybodaeth ynghylch pa bryd y bydd hyn yn digwydd nac unrhyw gamau a gymerir o ganlyniad i hynny.

Mae'r ymateb yn cydnabod y bydd angen dull partneriaeth o weithredu rhwng Prifysgolion, y Bwrdd Iechyd Llywodraeth Cymru ond does dim ymrwymiad cadarn i gychwyn y bartneriaeth hon.